

Bwletin Llythrennedd a Rhifedd

Pwrpas y bwletin hwn yw rhoi gwybod i chi am y datblygiadau diweddaraf ym maes Llythrennedd a Rhifedd ac am adnoddau ar draws pob cyfnod allweddol

Croeso i Fwletin Llythrennedd a Rhifedd GwE! Rydym yn gwybod pa mor brysur yw athrawon dosbarth, felly, rydym wedi mynd trwy'r swmp o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael am y blaenoriaethau cenedlaethol hyn â chrib fân er mwyn gwneud bywyd yn haws! Hyderwn y bydd yn ddefnyddiol i chi a byddem yn croesawu unrhyw adborth fel y gallwn deilwra bwletinau'r dyfodol i fodloni eich anghenion.



Ail rifyn Rhagfyr 2014

Adnoddau- beth sydd ar gael ar-lein?

Llythrennedd



Gweithdai ysgrifennu creadigol teithiol yw'r rhain, sy'n rhan o ddatliadau canmlwyddiant Dylan Thomas. Maent yn addas ar gyfer dysgwyr yn CA2, 3 a 4 ac ar gael hyd fis Mawrth 2015.

Mae'r gweithdai yn adlewyrchu gofynion y cwricwlwm yng Nghymru gan gynnwys FFLRh. www.developingdylan100.co.uk/cy/

Adnoddau CBAC



Ar safwe CBAC mae cyfres o adnoddau yn seiliedig ar y pecyn *Byd nad yw'n Bod*. Mae'r pecyn yn cynnwys enghreifftiau o gynllunio ac adnoddau i baratoi'r dysgwyr ar gyfer gwaith ysgrifennu.

<http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?riid=627>

Rhifedd



Mae NRICH yn hyrwyddo dysgu mathemateg trwy ddatrys problemau. Mae'r wefan yn darparu problemau amrywiol sy'n ateb gofynion cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar, Cynradd ac Uwchradd. www.nrich.maths.org

Mae'r safwe **Functional Mathematics** yn cynnwys tasgau rhifedd cyfoethog ar gyfer disgyblion CA3 www.functionalmathematics.co.uk

Beth sy'n newydd ar Dysgu Cymru? [Dysgu Cymru](#)

Stordy Adnoddau ar gyfer y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae Stordy'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol Llythrennedd a Rhifedd (RhGG) yn galluogi ymarferwyr i chwilio am adnoddau a all helpu ysgolion i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. www.stordy.org

Meysydd Dysgu a Rhaglenni Astudio Diwygiedig

Mae'r Meysydd Dysgu a'r Rhaglenni Astudio diwygiedig ar gyfer Cam 1 o adolygiad y cwricwlwm ac asesu ar gael yn awr at ddibenion cynllunio a pharatoi, gyda'r bwriad o ddod yn statudol o fis Medi 2015 ymlaen. Yn y flwyddyn newydd fe fyddwn yn eich hysbysu am gymorth pellach fydd ar gael i'w gweithredu <http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/revised-areas-of-learning-and-programmes-of-study/?skip=1&lang=cy>

Cymwys am Oes: cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r weledigaeth hirdymor ar gyfer addysg yng Nghymru ac mae'n dod â'r amrywiol linyddau o'r gwaith ynghyd i wella'r system addysg, gan amlinellu beth sydd wedi'i wneud hyd yn hyn a beth fydd yn cael ei wneud nesaf.

<http://learning.wales.gov.uk/news/sitenews/qualified-for-life-an-educational-improvement-plan-for-wales/?lang=cy>

Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Llawlyfr gweinyddu Profion 2015

Mae'r llawlyfr yn cynnwys crynodeb o lawlyfrau'r profion a chanllawiau ar y trefniadau mynediad a datgymhwyso.

<http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/national-reading-and-numeracy-tests-2015-administration-handbook/?lang=cy>

Hyfforddiant Ysgolion Cynradd

Bydd hyfforddiant Llythrennedd a Rhifedd ar gael yn ystod Tymor y Gwanwyn 2015.

Fe fydd y ffocws ar Uwch Sgiliau Darllen a Rhifedd Gweithdrefnol.

Manylion i ddilyn yn fuan y tymor nesaf.

Hyfforddiant Ysgolion Uwchradd

Llythrennedd-Cydlwynwyr Llythrennedd

Ysgolion Sir y Fflint a Wrecsam 29/01/15

(Gwybodaeth wedi cael ei yrru i ysgolion yn barod)

Arfer Orau

Meysydd Dysgu a Rhaglenni astudio diwygiedig: fideo rhagarweiniol

Bydd yr animeiddiad hwn yn helpu ysgolion a lleoliadau ddeall a chynllunio ar gyfer gweithredu diwygiadau Cam 1 o fis Medi 2015:

<http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/revised-areas-of-learning-and-programmes-of-study-introductory-video/?lang=cy>

Nodyn atgoffa i bob athro/athrawes dosbarth Derbyn

Pori Drwy Stori

Ffocws Tymor y Gwanwyn fydd 'Amser Llyfr'. Cofiwch fod amrywiaeth o ddeunyddiau defnyddiol ar gael ar lein.

<http://poridrwystori.booktrust.org.uk/cy/resources/2>



GwE(@GwEGogleddCymru)

